# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd H Griffiths** **Ward: Cwm Garw**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

| |
|---|
| **Gweithgareddau Etholaethol**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cwm Garw gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi'r preswylwyr ar fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 117 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol yn ôl fy nghofnodion. Mae'r rhain yn ymwneud â CBSP a sefydliadau eraill.<br><br>Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eu datrys. Nid wyf yn recordio galwadau ffôn na negeseuon sy'n cael eu gadael ar fy ffôn, ond gall fod tipyn ohonynt weithiau.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br>Y Cynghorydd H Griffiths |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod gyda sawl Clwb Chwaraeon, Clwb Pêl-droed Llangeinor a Chlwb Rygbi Pontycymer i drafod cynnydd eu ceisiadau CAT.<br><br>Fel aelod o'r Pwyllgor Datblygu a Rheoli rwyf wedi mynychu sawl ymweliad safle yn fy ardal.<br><br>Rwy'n cynnal Bore Coffi yn y Ganolfan OAP unwaith yr wythnos, felly os oes gan unrhyw un unrhyw ymholiadau, cwestiynau neu gŵyn, maen nhw'n gwybod ble i ddod o hyd i mi. |

Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn ceisio galw heibio'n rheolaidd i roi gwybod i ni beth sy'n digwydd yn yr ardal.

Gan fod yr ardal yn eithaf amrywiol ac yn cwmpasu Blaengarw, Pontycymer, Pontyrhyl, Llangeinwyr a Betws, rwy'n gyrru o gwmpas yn rheolaidd yn gwirio cwynion yr wyf wedi'u derbyn a gwirio pa gynnydd, os o gwbl, sydd wedi'i wneud.

Gan fy mod hefyd yn gwasanaethu ers amser maith ar Gyngor Cymuned Cwm Garw, un o'r mentrau yr wyf wedi'u cychwyn yw gosod diffibrilwyr ar hyd prif briffyrdd y dyffryn. Mae pob un sydd wedi'i osod wedi cael ei ddefnyddio, rhai sawl gwaith. Rydym wedi gosod dros ddwsin dwi'n meddwl. Mae disgwyl i ddau arall gael eu gosod o fewn yr wythnosau nesaf. Menter arall yw biniau baw cŵn sydd, gyda chymorth Cyngor Cymuned Cwm Garw, yn cael eu gosod ar hyd y llwybrau cerdded cŵn mwyaf poblogaidd.

Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Ysgol AALl, rwy'n Gadeirydd ar Ysgol Gynradd Ffaldau a CCYD. Mae hyn yn cymryd cryn dipyn o fy amser. Rwy'n ymweld â'r ddwy ysgol yn aml, 2-3 gwaith yr wythnos. Mae'n werth chweil gweld cynnydd y plant rhwng dechrau yn y Dosbarth Derbyn a Seremoni Gwobrau CCYD. Nid wyf byth yn blino ohono, ar ôl bron i 44 mlynedd o wasanaeth parhaus fel Llywodraethwr.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Gan fy mod hefyd yn gwasanaethu ers amser maith ar Gyngor Cymuned Cwm Garw, un o'r mentrau yr wyf wedi'u cychwyn yw gosod diffibrilwyr ar hyd prif briffyrdd y dyffryn. Mae pob un sydd wedi'i osod wedi cael ei ddefnyddio, rhai sawl gwaith. Rydym wedi gosod dros ddwsin rwy'n credu, ac mae disgwyl i ddau arall gael eu gosod o fewn yr wythnosau nesaf.

Menter arall yw biniau baw cŵn sydd, gyda chymorth Cyngor Cymuned Cwm Garw, yn cael eu gosod ar hyd y llwybrau cerdded cŵn mwyaf poblogaidd.

Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Ysgol AALl, rwy'n Gadeirydd ar Ysgol Gynradd Ffaldau a CCYD. Mae hyn yn cymryd cryn dipyn o fy amser.

Rwy'n ymweld â'r ddwy ysgol yn eithaf aml, 2-3 gwaith yr wythnos. Mae'n werth chweil gweld cynnydd y plant rhwng dechrau yn y Dosbarth Derbyn a Seremoni Gwobrau CCYD. Nid wyf byth yn blino ohono, ar ôl bron i 44 mlynedd o wasanaeth parhaus fel Llywodraethwr.

**Y Cynghorydd H Griffiths:** **Dyddiad: 26 Mehefin 2024**